Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 12fed o Orffennaf 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby

Cof 97 / Gorff / 17 Datganiadau o fuddiant
Arwyddodd y Maer y Cyng. Eifion Davies y Llyfr Datganiadau o Fuddiant ac ni wnaeth gyfranogi yn yr eitem a oedd yn ystyried rhoi rhodd i'r Lloffwr, gan fod ganddo gysylltiadau teuluol â gweithiwr.

Cof 98 / Gorff / 17 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne (casglu sbwriel hyd at 26 Mehefin)	£ 160.00	£ 32.00	£ 192.00*
Morgan & Morgan (papur llungopïo)	£ 12.45	£ 2.09	£ 14.94*
Festive Lighting (offer goleuadau Nadolig)	£ 429.00	£ 85.92	£ 515.52*

Bacs * Siec #
Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 99 / Gorff / 17 Incwm a dderbyniwyd ers y 14eg o Fehefin 2017 hyd yn hyn

Arian parod / Sieciau (elusen y Maer)	£ 2,540.00
Arian parod / Sieciau (derbyniadau'r cinio)	£ 1,976.50
Ad-daliad Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (rhent Ch2)	£ 3,219.27
Llog Banc	£ 0.19

Cof 100 / Gorff / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 11/ 7 /17)	£ 22,386.90
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 11 / 7/17)	£ 1,917.51
Cyfrif Maer CTLl (Barclays) (11/ 07/17)	£ 2.980.00
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y Bond Adnau Llog Uchel yn cael ei ail-fuddsoddi ar yr 20fed o Orffennaf, am 3 mis arall.

Cof 101 / Gorff / 17 Materion Ariannol Eraill
1. Cytunwyd i ohirio'r Adroddiad ar y Gwiriad Chwarterol nes cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.
2. Byddai rhoddion a roddwyd gan y Cyng. Colin Jenkins yn cael eu cofnodi fel rhan o'r Adroddiad ar y Gwiriad Chwarterol.
3. Dywedodd y Swyddog Cyllid y byddai'n adfer TAW ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

Cof 102 / Gorff / 17 Ceisiadau am Gymorth Ariannol

1.Y Lloffwr.

Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace rodd o £50. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

2.Eglwys Sant Teilo.

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am rodd tuag at gost gwaredu coeden fawr ag arni afiechyd. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins na ddylid rhoddi unrhyw rodd ac y dylai'r Clerc ateb gan ddweud bod y Cyngor eisoes wedi cyfrannu £1,000 tuag at gostau cynnal a chadw'r fynwent. Fodd bynnag, pe byddai'r Eglwys yn darparu mantolen, yna, gellid ystyried rhodd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies.

Cof 103 / Gorff / 17 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol.

1. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio i brynu ffyn o fath baton, i'w defnyddio mewn digwyddiadau cyhoeddus, megis yr arddangosfa tân gwyllt, am bris o £59.95, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

2. Serfis Blynyddol i'r Boeler. Cynigodd y Cyng. Eifion Davies y dylai'r serfis hwn gael ei gynnal, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace.

Cof 104 / Gorff / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.29yh.